# Polisi Cofnodi Troseddau a Digwyddiadau ac Ymchwilio Iddynt

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r Polisi:** | ***Safonau Heddlu Dyfed-Powys o ran cofnodi troseddau a digwyddiadau, eu pennu, ymchwilio iddynt a'u cau.*** |
| **Rhif y Polisi:** | ***032/2021*** |
| **Rheoli Fersiynau:** | ***Fersiwn 1.0***<br>***Dyddiad:*** *05/10/2021*<br>***Awdur:*** *Y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro* [redacted] *a* [redacted]<br>***Rhesymwaith:*** *Mae'n disodli'r Polisi Cofnodi a Phennu Troseddau ac Ymchwilio Iddynt f6.0; gweithredu ailstrwythuro'r prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd.*<br>***Mae rheoli fersiynau llawn [ar gael fan hyn](#).*** |
| **Dyddiad Gweithredu:** | ***07/11/2021*** |
| **Dyddiad Adolygu:** | ***06/11/2023*** |
| **Perchennog/Cyswllt:** | **Ditectif Brif Arolygydd y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau** |
| **Cymeradwyaeth:** | ***Cymeradwyaeth y Grŵp Prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd***<br>***Dyddiad: 05/10/2021*** |
| **Cymeradwyaeth Terfynol:** | ***Cymeradwyaeth y Grŵp Prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd***<br>***Dyddiad: 05/10/2021*** |
| **Ymgynghori a Chymeradwyo:** | ***Lluniwyd y polisi hwn mewn ymgynghoriad â rheolwyr ac ymarferwyr a nodwyd yn randdeiliaid fel rhan o'r prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd.*** |
| **Cyfieithiad Saesneg:** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Nod y polisi hwn yw darparu canllawiau clir a chyson i swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys (HDP) mewn perthynas â'r safonau o ran ymchwilio i droseddau a digwyddiadau, a sicrhau bod y cyhoedd yn dawel eu meddwl y bydd unrhyw ddigwyddiad yr adroddir amdano wrth yr heddlu'n cael ei gofnodi yn unol â'r Safonau Cenedlaethol Cofnodi Troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer troseddau sydd wedi'u cofnodi, bod y perygl wedi'i asesu'n briodol a bod pob mater diogelu wedi'i drin gan yr heddlu neu bartneriaid. Mae'r polisi hwn yn anelu i sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys lywodraethu a systemau effeithiol mewn grym ar gyfer cofnodi, goruchwylio a phennu er mwyn cefnogi'r safonau a'r broses ymchwilio.

Crëwyd y polisi hwn yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer Ymchwilio, a dylid ei ddarllen ar y cyd â phwerau a safonau cenedlaethol a pholisïau partneriaid perthnasol.

***Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*** *Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Dylai pob swyddog ac aelod staff heddlu sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o gofnodi a phennu troseddau a digwyddiadau ac ymchwilio iddynt o fewn HDP ddilyn y polisi hwn, ynghyd â'r gweithdrefnau a'r nodiadau canllaw perthnasol.

Gall swyddogion a staff ddod o hyd i'r holl ddeunydd arweiniol mewnol ar gyfer y polisi hwn ar dudalen Polisïau a Gweithdrefnau'r fewnrwyd.

Mae'n darparu eglurdeb o ran rolau a chyfrifoldebau, yn nodi'r safonau gofynnol ac yn darparu cyfeiriad ar gyfer y broses benderfynu. Mae'r polisi'n tynnu sylw at y rolau a'r swyddogaethau o fewn Plismona Ymateb, y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau, y Canolfannau Ymchwilio lleol a'r adrannau Troseddau Arbenigol.

Rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn dawel eu meddwl y bydd unrhyw drosedd yr adroddir amdani wrth yr heddlu'n cael ei chofnodi yn unol â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref, y bydd yn cael ei hasesu'n briodol ar gyfer perygl, ac y bydd yr heddlu neu ei bartneriaid yn ymdrin â phob mater diogelu.

Mae'n hollbwysig ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y dyfodol y bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chofnodi, pennu a chanlyniad ymchwiliadau'n canolbwyntio ar y dioddefydd, yn gymesur, yn gadarn ac yn gyson.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Rhaid cofnodi unrhyw drosedd neu ddigwyddiad a ddatgelir wrth yr heddlu'n briodol. Rhaid cofnodi trosedd a brofwyd yn unol â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref gan ddefnyddio systemau cofnodi troseddau mewnol yr heddlu. Bydd unrhyw ddigwyddiad nad yw'n drosedd yn cael ei gofnodi ar system gorchymyn a rheoli'r heddlu (STORM) ac mae angen i'r swyddog sy'n ymdrin â'r digwyddiad ei diweddaru. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w hadnabod os oes digwyddiadau pellach, a bod modd tynnu sylw asiantaethau partner atynt.

Os oes angen i Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG) fod yn gysylltiedig ag ymchwiliad, dylid defnyddio polisïau a chanllawiau priodol GEG er mwyn cynorthwyo ymchwilwyr mewn perthynas â phenderfyniadau, canlyniadau, dioddefwyr, tystion a drwgdybiedigion yr ymchwiliad.

Ar gyfer achosion sy'n cynnwys pobl sy'n agored i niwed, mae polisïau eraill HDP a rhai asiantaethau perthnasol eraill a chyrff cenedlaethol (megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Coleg Plismona) yn darparu canllawiau ac arfer gorau.

Gall polisïau mewnol eraill o gwmpas unigolion a grwpiau lleiafrifol neu fregus ddarparu canllawiau pellach o ran safonau diogelu a chofnodi ein hymateb plismona.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r canlynol:

<u>Mewnol HDP</u>

- Polisi Ymateb Graddedig a Lleoli
- Polisi Oedolion Mewn Perygl
- Polisi Archwilio Ansawdd Data Trosedd

- Polisi Troseddau Casineb
- Polisi Cam-drin Domestig
- Polisi Ymchwilio ac Erlyn Trais
- Polisi Cudd-wybodaeth
- Polisi Cyfweld Ymchwiliadau
- Polisi Swyddogion Cyswllt LHDT
- Polisi Unigolion Coll
- Polisi'r Uned Diogelu'r Cyhoedd
- Polisi Stelcio ac Aflonyddu
- Polisi Bregusrwydd
- Polisi Twyll
- Polisi Diogelu Data
- Iechyd a Diogelwch
- Cod Moeseg HDP

Allanol

- Model Penderfynu Cenedlaethol y Coleg Plismona
- Arferion Awdurdodedig Proffesiynol y Coleg Plismona ar Ymchwilio
- Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer Troseddau Cofnodedig
- Y Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau
- Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- Deddf Gweithdrefnau Troseddol ac Ymchwiliadau 1996
- Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Polisïau GEG
- Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

**CWBLHAWYD ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Arolygydd Dros Dro [redacted] |
| **Adran:** | Ymchwiliadau, CID |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 24/8/21 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Llofnod:** | 31 Awst 2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

### 4.1 Cofnodi Troseddau

Bydd pob digwyddiad sy'n gysylltiedig â throsedd yn cael ei gofnodi ar System Gorchymyn a Rheoli yr Heddlu (STORM) er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio effeithiol wedi'i greu. Bydd pob trosedd yn cael ei chofnodi yn unol â'r Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Mae'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau'n gyfrifol am gofnodi pob adroddiad am drosedd sydd ddim angen presenoldeb heddlu cychwynnol (gweler y *Polisi Ymateb Graddedig a Lleoli*), ac am ddilysu pob trosedd yr adroddir amdani, gan gynnwys y rhai yr ymgymerir â nhw gan bobl eraill.

### 4.2 Brysbennu ac Asesu

Er mwyn hwyluso penderfyniadau cadarn ac amddiffynadwy o gwmpas ymchwiliadau, defnyddir Fframwaith Ymchwiliol, a fydd yn cynnwys yr elfennau canlynol: Barn Dioddefydd ac asesiadau mewn perthynas â Bregusrwydd, Natur Ddatrysadwy a Chymesuredd. Bydd y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau'n ymgymryd â hyn.

Mae gwneud penderfyniadau priodol o ran brysbennu ac asesu cyn gynted â phosibl yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y gallu gyda ni i reoli nifer y troseddau, a gan hynny, cyflenwi ymateb ymchwiliol effeithiol. Bydd brysbennu ac asesu amhriodol yn creu galw gormodol ar ymchwilwyr, ac yn y pen draw, yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a gyflwynir ar draws yr ardal heddlu.

### 4.3 Pennu Troseddau a Digwyddiadau

Er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'n hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol, pennir ymchwiliadau i swyddogion ar gyfer ymchwiliad yn seiliedig ar nifer o ffactorau, megis:

- Yr asesiad risg THRIVES (Bygythiad, Niwed, Perygl, Cyfleoedd ymchwilio, Bregusrwydd, Ymgysylltu, Diogelu);
- Difrifoldeb/cymhlethdod yr ymchwiliad (y Broses Proffesiynoli Ymchwilio; (PIP))
- Y gofyniad i Uwch Swyddog Ymchwilio Lefel 3 PIP cofrestredig cenedlaethol reoli'r ymchwiliad.

Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymchwilydd cywir â'r sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant gofynnol yn cael ei baru â phob ymchwiliad o'r cychwyn cyntaf.

**4.4 Y Model Penderfynu Cenedlaethol**

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol wrth wneud penderfyniadau ac wrth adolygu a gwerthuso hen benderfyniadau a chamau gweithredu. Defnyddir y Model Penderfynu Cenedlaethol i gefnogi hyfforddiant a hyrwyddo dysgu hefyd.

**4.5 Safonau Ymchwilio**

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn y Rhaglen Proffesiynoli Ymchwilio (PIP) er mwyn sicrhau bod staff achrededig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu pennu i'r lefel ymchwilio gywir. Y safon genedlaethol, a ddilynir gan HDP, yw:

- PIP 1 – Ymchwiliadau troseddau niferus a blaenoriaethol
- PIP 2 – Ymchwiliadau difrifol a chymhleth
- PIP 3 – Ymchwiliadau mawr
- PIP 4 – Rheolaeth strategol o ymchwiliadau cymhleth iawn

Pan nad oes staff â sgiliau priodol ar gael i'w lleoli oherwydd adnoddau a gofynion gweithredol, gweithredir mesurau ar gyfer cefnogi'r ymchwiliad a lleihau'r perygl i'r cyhoedd, yr unigolyn a'r sefydliad a allai godi oherwydd y diffyg argaeledd hwnnw.

**4.6 Cyfrifoldebau a Rolau Plismona Ymateb**

Ar gyfer Ymateb Brys neu adroddiadau lle mae angen presenoldeb yr heddlu, rhaid i swyddogion sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddilyn y *Cymorth Cof Egwyddorion Awr Euraidd* o ran eu dyletswyddau a'u cyfeiriad meddwl wrth bennu digwyddiadau a phresenoldeb yn lleoliad y digwyddiadau hynny.

Dylai swyddogion heddlu sy'n derbyn adroddiadau uniongyrchol am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â throsedd gan aelodau o'r cyhoedd, neu sy'n nodi trosedd yn ystod eu dyletswyddau, gofnodi'r drosedd cyn gynted â phosibl. Rhaid mai 'cofnodi ar gyfer ymchwilio' yw'r arfer hollgyffredinol.

Ni fydd plismona ymateb yn cynnal perchnogaeth o ymchwiliadau tu hwnt i'r Egwyddorion Awr Euraidd.

Meysydd cyfrifoldeb Plismona Ymateb yw:

YMATEB CYCHWYNNOL
- Diogelu bywyd a gwarchod y cyhoedd ac eiddo
- Nodi cymorth gan bartner neu arbenigwr
- Rhagweithgarwch a thasgio cyfreithadwy

RHEOLI TROSEDDAU A DIGWYDDIADAU
- Egwyddorion Awr Euraidd
- Diogelu a chadw tystiolaeth
- Cofnodi moesegol a chywir
- Trosglwyddo effeithiol

DIOGELU
- Adnabod y rhai sy'n agored i niwed a'u gwarchod
- Asesu perygl a gweithredu'n gywir
- Cyfeirio a rhannu gwybodaeth a pherygl

SGILIAU ARBENIGOL
- Datblygiad proffesiynol parhaus
- Defnyddio sgiliau arbenigol – defnyddio partneriaid
- Ymagwedd Datrys Problemau

MOESEG A CHANLYNIADAU

- Gweithredu cyfreithlon a chanlyniadau priodol
- Ôl-drafod a dysgu'r gwersi
- Archwilio ac adolygu

Prif rôl cwnstabliaid cyfrifol yw diogelu'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu; ymateb i ddigwyddiadau; cofnodi troseddau ac adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol; cyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, ac ar yr un pryd, cynnal safonau sefydliadol a sicrhau bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith.

Prif rôl pob rhingyll Ymateb yw goruchwylio cyflenwi'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Maen nhw'n gyfrifol am oruchwylio swyddogion a staff yr heddlu o ddydd i ddydd, gan sicrhau y cynhelir safonau sefydliadol a bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith.

Bydd pob aelod staff yn cydymffurfio â pholisïau Heddlu Dyfed-Powys ar Ddatblygu Staff, y Proffil Asesu Datblygiad, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth, ac yn gweithredu yn unol â phrotocolau a dogfennau canllaw'r Heddlu.

### 4.7 Rolau a Chyfrifoldebau'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau

Bydd y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau'n gyfrifol am gofnodi pob adroddiad trosedd sydd ddim angen presenoldeb heddlu cychwynnol (gweler y *Polisi Ymateb Graddedig a Lleoli*). Bydd y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau'n gyfrifol am ddilysu pob trosedd yr adroddir amdani, gan gynnwys y rhai yr ymgymerir â nhw gan eraill.

Bydd pob galwad 101 fyw sy'n cael ei graddio'n Drosedd neu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac sydd ddim yn bodloni'r drothwy graddio galwadau o fod angen presenoldeb swyddog, yn cael ei throsglwyddo'n fyw i staff y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yn ystod oriau gweithredu'r ganolfan. Bydd pob digwyddiad arall sydd ddim angen presenoldeb swyddog yn cael ei drosglwyddo i'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau drwy'r system gorchymyn a rheoli. Bydd pob digwyddiad a dderbynnir drwy ffyrdd eraill, neu os nad yw trosglwyddiad byw'n bosibl, gan gynnwys tu allan i oriau gweithredu'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau, yn cael ei drosglwyddo i'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau drwy'r system gorchymyn a rheoli. Bydd y

Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau'n asesu ac yn ymateb i'r digwyddiadau hyn cyn gynted â phosibl ac yn unol ag argaeledd y galwr.

Meysydd cyfrifoldeb y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yw:

COFNODI TROSEDDAU A DIGWYDDIADAU

- Asesiad cywir o adroddiad trosedd
- Nodi cofnod priodol – Gwrthdrawiad Traffig y Ffyrdd/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Trosedd
- Dilysu a chynorthwyo â chofnodi troseddau gan eraill

ASESU TROSEDDAU A DIGWYDDIADAU

- Brysbennu ac asesu digwyddiadau nad ydynt yn droseddau
- Gweithredu fframwaith ymchwilio
- Nodi adnoddau ac ymateb priodol i ddigwyddiadau

YMCHWILIADAU

- Cynlluniau ymchwilio cymesur
- Ymchwiliadau pen desg
- Adolygu a chanlyniad, neu ailbennu

MONITRO A RHEOLI

- Dangosfwrdd o alw ar draws yr heddlu (ymchwiliadau byw, perygl, digwyddiadau difrifol a thueddiadau, perfformiad, Cod Ymarfer Dioddefwyr)
- Monitro rhagfynegol a dadansoddol (adolygu galw dyddiol, wythnosol a misol gan edrych ar yr un cyfnod y llynedd neu dystiolaeth er mwyn cynllunio ymlaen llaw)

CANLYNIADAU

- Gweithredu a dilysu cau digwyddiadau a throseddau (terfynu troseddau a digwyddiadau yn gywir)
- Archwilio pob proses

Prif rôl Ymchwilwyr y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yw diogelu'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu, ymateb i ddigwyddiadau, ymchwilio i droseddau ac adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol, a cyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, ac ar yr un pryd, cynnal safonau sefydliadol a sicrhau

bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith. Maent yn gyfrifol am gofnodi, asesu ac ymchwilio i droseddau, gan ymgysylltu â'r dioddefydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

Prif rôl goruchwylwyr y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yw goruchwylio cyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Maent yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion a staff yr heddlu o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod safonau sefydliadol yn cael eu cynnal a bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith. Byddant yn monitro galw, baich gwaith a pherfformiad, ac yn ymgysylltu ag adrannau eraill yn ôl yr angen.

Bydd arbenigwyr Cofnodi Troseddau yn y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yn dilysu ac yn cynorthwyo cofnodi troseddau a gweithredu canlyniadau gan eraill.

Bydd pob aelod staff yn cydymffurfio â Pholisïau Heddlu Dyfed-Powys ar Ddatblygu Staff, y Proffil Asesu Datblygiad, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth, ac yn gweithredu yn unol â phrotocolau a dogfennau canllaw'r Heddlu.

## 4.8 Rolau a Chyfrifoldebau Unedau Ymchwilio Lleol

Bydd gan bob Ardal Blismona Leol Uned Ymchwilio leol. Bydd yr ardal a nifer yr adnoddau'n cael eu cysoni â'r galw, ond bydd eu swyddogaethau'n cael eu categoreiddio fel isod.

Meysydd cyfrifoldeb yr Uned Ymchwilio yw:

RHEOLI DRWGDYBIEDIGION A DALFEYDD
- Materion dalfa byw
- Cydlynu drwgdybiedigion y mae angen mynd i'r afael â nhw
- Cynlluniau diogelu a bregusrwydd

YMCHWILIADAU
- Cydlynu ymchwiliadau cymesur gan ddefnyddio'r broses THRIVE
- Nodi perchnogaeth neu gymorth arbenigol

DIOGELU AC ASESU
- Rhyddhau dan Ymchwiliad a rheoli mechnïaeth

- Plismona drwy ddatrys problemau (gan ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar OSARA tuag at ymddygiadau, tueddiadau a galw)
- Gweinyddiaeth Cyfiawnder Troseddol

GALW A PHERFFORMIAD
- Cod Ymarfer Dioddefwyr – 12 hawl dioddefwyr
- Archwilio ac Adolygu
- Sganio Amgylcheddol

Prif rôl Ymchwilwyr UY lleol yw diogelu'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu, ymateb i ddigwyddiadau, ymchwilio i droseddau ac adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, ac ar yr un pryd, cynnal safonau sefydliadol a sicrhau bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith. Maent yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau, ymdrin â materion dalfa byw, cydlynu drwgdybiedigion y mae angen mynd i'r afael â nhw, ymgysylltu â'r dioddefydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

Prif rôl goruchwylwyr UY lleol yw goruchwylio cyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Maent yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion a staff yr heddlu o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod safonau sefydliadol yn cael eu cynnal a bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith. Byddant yn monitro galw, baich gwaith a pherfformiad, ac yn ymgysylltu ag adrannau eraill yn ôl yr angen.

Bydd pob aelod staff yn cydymffurfio â Pholisïau Heddlu Dyfed-Powys ar Ddatblygu Staff, y Proffil Asesu Datblygiad, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth, ac yn gweithredu yn unol â phrotocolau a dogfennau canllaw'r Heddlu.

### 4.9 Rolau a Chyfrifoldebau Ymchwilio i Ddigwyddiadau a Throseddau Arbenigol

Mae troseddau arbenigol yn cael eu categoreiddio o fewn y polisi hwn fel yr Adran Ymchwiliadau Troseddol (CID) a'r Uned Rheoli Troseddwyr ar draws yr ardaloedd plismona lleol. Mae adrannau arbenigol eraill yn cynorthwyo â'r ymateb heddlu ac yn ei gydlynu, ond nid ydynt yn cadw prif berchnogaeth o'r ymchwiliad.

Meysydd cyfrifoldeb Troseddau Arbenigol yw:

RHEOLI RISG

- Rheoli drwgdybiedigion – materion y mae angen mynd i'r afael â nhw, materion dalfa a materion ar ôl gadael y ddalfa
- Digwyddiadau byw
- Ymholiadau amlasiantaethol/cyd-asiantaethol
- Cynlluniau bregusrwydd a diogelu (ar gyfer materion sydd angen sgiliau arbenigol)

YMCHWILIADAU

- Ymchwiliadau Difrifol a Chymhleth
- Ymchwiliadau mawr
- Marwolaethau neu anafiadau difrifol
- Sgiliau arbenigol – cynorthwyo neu ddefnyddio eraill

RHEOLI TROSEDDWYR

- Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Throseddwyr Treisgar
- Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
- Cynlluniau Rheoli Troseddwyr yn Integredig/ Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru
- Diogelu rhag cam-drin domestig
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Targedu – canolbwyntio ar flaenoriaethau o fewn ardaloedd plismona lleol

GALW A PHERFFORMIAD

- Gwasanaeth uwch ar gyfer dioddefwyr
- Rheoli Troseddau – safonau ymchwilio ar draws pob maes
- Archwilio ac Adolygu – cydymffurfiaeth dioddefwyr, amserlenni ymchwilio, achredu a datblygiad proffesiynol parhaus
- Sganio amgylcheddol – dysgu gwersi, cyflenwi a nodi arfer da

Prif rôl ditectif gwnstabliaid yw diogelu'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu, ymateb i ddigwyddiadau, ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwyr yn eu maes arbenigol penodol, a chyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, ac ar yr un pryd, cynnal safonau sefydliadol a sicrhau bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith.

Prif rôl ditectif ringylliaid yw goruchwylio cyflawni'r Cynllun Plismona a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Maent yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion a staff yr heddlu o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod safonau sefydliadol yn cael eu cynnal a bod y Cod Moeseg yn tanategu pob maes gwaith. Byddant yn monitro galw, baich gwaith a pherfformiad, ac yn ymgysylltu ag adrannau eraill yn ôl yr angen.

Bydd pob aelod staff yn cydymffurfio â Pholisïau Heddlu Dyfed-Powys ar Ddatblygu Staff, y Proffil Asesu Datblygiad, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth, ac yn gweithredu yn unol â phrotocolau a dogfennau canllaw'r Heddlu.

**4.10 Cau Troseddau**

Bydd pob trosedd yn cael ei hasesu a'i hadolygu cyn i'r goruchwylydd, a fydd yn gweithredu'r canlyniad priodol, ei chau. Bydd templed a fydd yn eu tywys i'r canlyniad perthnasol yn cynorthwyo'r goruchwylwyr. Bydd pob canlyniad yn cael ei ddilysu gan staff y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau neu'r Tîm Archwilio Troseddau.

**4.11 Cod Moeseg**

Yn unol â naw egwyddor plismona'r Cod Moeseg, mae'r Polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r canlynol:

- Atebolrwydd – Yr ydych yn atebol am eich penderfyniadau, camau gweithredu ac esgeulustod
- Tegwch – Yr ydych yn trin pobl yn deg
- Gonestrwydd – Yr ydych yn eirwir a dibynadwy
- Unplygrwydd – Yr ydych bob amser yn gwneud y peth iawn
- Arweinyddiaeth - Yr ydych yn arwain drwy enghraifft dda
- Gwrthrychedd – Yr ydych yn gwneud dewisiadau yn seiliedig ar dystiolaeth a'ch barn broffesiynol orau
- Didwylledd – Yr ydych yn agored a thryloyw yn eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau
- Parch – Yr ydych yn trin pawb â pharch
- Anhunanoldeb – Yr ydych yn gweithredu er budd y cyhoedd

**COD MOESEG**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro [redacted] |
| **Adran:** | Ymchwiliadau, CID |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 24/8/21 |

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Mae'r polisi hwn yn eiddo i'r Adran Ymchwiliadau Troseddol. Cynhelir y broses adolygu gan y Rheolwr CID priodol bob yn ail flwyddyn er mwyn sicrhau effeithiolrwydd parhaus y polisi hwn, a gan ystyried unrhyw newid i ddeddfwriaethau, gweithdrefnau'r heddlu, canllawiau'r Swyddfa Gartref, canllawiau'r Coleg Plismona ac ati. Bydd effeithiolrwydd y polisi'n cael ei fonitro'n rheolaidd, ac yn amlach na'r cyfnod dwy flynedd. Ystyrir unrhyw heriau i'r polisi ac unrhyw eitemau aneffeithlon a nodwyd mewn perthynas â'i weithredu. Bydd unrhyw bryderon difrifol yn cael eu dwysau fel y bo'n briodol.

Yn achos unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r polisi hwn, ei gynnwys, neu unrhyw ddogfennau canllaw cysylltiedig, dylai unigolion gysylltu ag uwch gynrychiolydd CID Heddlu Dyfed-Powys.

Bydd y polisi hwn yn cael ei hyrwyddo'n briodol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth yn ystod cyflwyniadau a mewnbynnau hyfforddi perthnasol ar gyfer staff ar draws yr heddlu. Bydd y polisi ar gael i'w ddarllen ar fewnrwyd a rhyngrwyd yr heddlu. Bydd ei gyhoeddi drwy'r rhyngrwyd yn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen. Gallai'r broses Adolygiad Mewnol amlygu materion â'r polisi hwn a chanllawiau cysylltiedig. Os felly, cymerir camau gweithredu perthnasol. Lle y nodir materion, bydd y cynrychiolydd CID yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr o'r adrannau perthnasol i fynd i'r afael â'r materion a sicrhau y dysgir gwersi.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| Addas i'w chyhoeddi | Ydyw/Nac ydyw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 24/8/21 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd mewn cyhoeddi:**

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**

(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas.

**Rheoli Fersiynau'n Llawn**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymwaith |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 05/10/2021 | Y Ditectif Arolygydd Dros Dro [redacted] a [redacted] | Mae'n disodli'r Polisi Cofnodi a Phennu Troseddau ac Ymchwilio Iddynt f6.0; gweithredu ailstrwythuro'r prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd. |
| | | | |
| | | | |